# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws a R. Meirion Jones |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Rheolwr Adnoddau Dynol (CW),<br>Swyddog Pwyllgor. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr A M Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Neb |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd bod confodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Chwefror, 2021 yn gywir.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"O dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 APWYNTIO STAFF**

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyflwynwyd 1 ymgeisydd ar y rhestr fer i'w ystyried gan y Pwyllgor Penodi fel unigolyn a allai gael ei benodi i rôl Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cafwyd cyflwyniad gan yr ymgeisydd, ac atebodd gwestiynau ar y cyflwyniad ac wedyn gyfres o gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor. Darparwyd atborth gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid ar y broses asesu a oedd yn cynnwys profion seicometrig a chyfweliad proffesiynol a gynhaliwyd gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid.

Yn dilyn y cyfweliad ffurfiol, **PENDERFYNODD y Pwyllgor Penodiadau benodi Mr Fôn Roberts i'r swydd uchod.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**